

Agenda

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus
Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Iau 12 Chwefror 2026
Amser y cyfarfod:	09:30 – 12:25

Amser	Eitem
	Sesiwn Gyhoeddus
09:30 (5 munud)	Eitem 1. Agor y cyfarfod • Croeso • Datganiad Buddiannau • Egluro trefn y cyfarfod Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd) Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiannau
09:35 (5 munud)	Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd ar 27 Tachwedd 2B. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd ar 12 Gorffennaf Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd) Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r Log Camau Gweithredu
09:40 (10 munud)	Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd Noddwr a Chyflwynydd: Neil Sachdev (Cadeirydd) Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd
09:50 (20 munud)	Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro Crynodeb: NODI'r sefyllfa bresennol a diweddarau'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol

Cyfeirnod y papur: 26-02-B01

10:10
(20 munud)

Eitem 5. Adroddiad Diweddaru'r Pwyllgorau

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg – 9 Rhagfyr

Cyfeirnod y papur: 26-02-B02

- Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth – 28 Ionawr (Llafar)
- Pwyllgor Cyllid – 3 Chwefror (Llafar)
- Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 17 Rhagfyr (Ardaloedd Draenio Mewnol)/ 15 Ionawr

Cyfeirnod y papur: 26-02-B04

- Pwyllgor Ystad Tir – 22 Ionawr

Cyfeirnod y papur: 26-02-B05

- Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid – 4 Rhagfyr
Yn cynnwys Cymeradwyo Adroddiad Ch2 Lles, Iechyd a Diogelwch a Chymeradwyo Strategaeth Lles, Iechyd a Diogelwch

Cyfeirnod y papur: 26-02-B06

Cyfeirnod y papur: 26-02-B07

Cyfeirnod y papur: 26-02-B08

- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – Cyfarfod nesaf 26 Chwefror

- Fforwm Rheoli Tir Cymru

Cyfeirnod y papur: 26-02-B18

- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Cyfeirnod y papur: 26-02-B19

Crynodeb: NODI'r diweddariadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd a Fforymau CNC, mewnol ac allanol, a chyfarfodydd a gynhaliwyd

10:30
(15 munud)

Eitem 6. Adroddiad ar Berfformiad Cyllid

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: CYMERADWYO'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf

Cyfeirnod y papur: 26-02-B09

10:45
(15 munud)

Egwyl

11:00
(60 munud)

Eitem 7. Cyflwyniad Lle

Noddwr: Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol, Lle a Gwasanaeth

Cyflwynydd: Elsie Grace, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd Ddwyrain

Crynodeb: Cyfarfod a chlywed gan y Tîm Rheoli er mwyn deall agweddau allweddol a'r ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar le yn y Gogledd Ddwyrain.

12:00
(5 munud)

Eitem 8. Unrhyw fater arall

12:05

Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus

12:05
(20 munud)

Cwestiynau ac Atebion Cyhoeddus Terfynol

12:25

Diwedd y cyfarfod

Cofnodion Heb eu Cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC (Cyhoeddus)
Lleoliad:	Caerdydd a Teams
Dyddiad y cyfarfod:	27 Tachwedd 2025
Aelodau yn bresennol:	Neil Sachdev, Cadeirydd Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro Dr Hushnara Begum Dr Pete Fox Dr Rebecca Colley-Jones Dr Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Helen Pittaway Adam Taylor
Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Hefyd yn bresennol:	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethiant ac Ysgrifennydd y Bwrdd (pob eitem) Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol Mark Collins, Rheolwr Tîm Cyllid 2 – Eitem 6 Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Portffolios – Eitem 7 James Cornelius, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol – Eitem 7

Sylwedyddion yn bresennol:	Neb
Ymddiheuriadau:	Karen Balmer
Ysgrifenyddiaeth:	Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Rhiannon Spencer, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Andrea Bennett, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Datganiadau o fuddiant	

Eitem 1. Dechrau'r cyfarfod

Noddwr a chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

1. Agorodd y cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb. Nodwyd datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel uchod.

Eitem 2. Adolygu'r cofnodion a chofnod y camau gweithredu

Eitem 2A. Adolygu cofnodion o gyfarfod cyhoeddus 8 Hydref

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 8 Hydref.

Eitem 2B. Adolygu'r cofnod o gamau gweithredu cyhoeddus

3. Adolygwyd y cofnod o gamau gweithredu, a darparwyd diweddariadau. Cytunwyd y gellid cau camau gweithredu a gwblhawyd.

Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y cadeirydd

Noddwr a chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

4. Cyflwynodd y cadeirydd ei hun ac eglurodd y cyfleoedd yr oedd wedi'u cymryd i gwrdd â staff a rhanddeiliaid. Roedd yn bwriadu treulio amser yn ymgyswrtu ymhellach â gwaith a staff CNC trwy ymweliadau â swyddfeydd a safleoedd yn y dyfodol.
5. Diolchodd y cadeirydd i'r staff am yr ymdrechion rhyfeddol yn ystod ac yn dilyn Storm Claudia, yn enwedig yn Sir Fynwy.

Eitem 4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro

6. Diolchodd y Prif Weithredwr Dros Dro i Steve Ormerod am ei gefnogaeth ynghylch cyfarfod Asiantaethau Diogelu'r Amgylchedd a gynhaliwyd gan CNC yn ddiweddar

yng Nghaerdydd. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan gynrychiolwyr ar y canlyniadau a'r digwyddiad ei hun. Mynychodd y Prif Weithredwr Dros Dro a Steve Ormerod gyfarfod blynyddol y Cyrff Cadwraeth Natur Strategol hefyd, a roddodd gyfle i ddysgu ar y cyd. Yn 2026, bydd CNC yn cynnal y digwyddiad yng Ngogledd Cymru.

7. Mynychwyd cyfarfod rhithwir Awdurdodau Cadwraeth Natur Ewrop gan y Prif Weithredwr Dros Dro a staff eraill CNC. Roedd CNC yn arwain trawsnewid ar gyfer natur mewn cydweithrediad â chymheiriaid o'r Iseldiroedd a'r Almaen. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd manteisio ar gyfleoedd i feithrin perthnasoedd, trafod heriau cyffredin, a dysgu wrth wledydd eraill.
8. Cydnabuwyd adroddiad Archwilio Cymru ar ddull CNC o ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Er ei fod wedi bod yn ganlyniad siomedig, roedd CNC yn ei ddefnyddio fel cyfle i wella camau gweithredu ar fioamrywiaeth a chadwraeth. Byddai'r gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad yn cael eu defnyddio ar draws CNC. Nodwyd bod yr adroddiad Rhywogaethau mewn Perygl wedi'i gyhoeddi.
9. Roedd y Prif Weithredwr Dros Dro ac aelodau eraill o staff wedi mynychu Ffair Aeaf Brenhinol Cymru. Tynnwyd sylw at well perthnasoedd gwaith gyda rhanddeiliaid rheoli tir ac amaethyddiaeth.
10. Rhoddwyd diweddariad ar adolygiad portffolio'r tîm gweithredol. Roedd y gwaith o weithredu'r strwythur newydd ar y gweill gyda recriwtio dau dîm gweithredol newydd dros dro o fewn Gweithrediadau. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am y datblygiadau, ac ar wahân i'r swyddi parhaol o fewn Gweithrediadau, dylai'r newid gael ei gwblhau erbyn y flwyddyn ariannol newydd.
11. Tynnwyd sylw at ddiweddariad y rhifyn misol i reolwyr fel enghraifft o ymrwymiad y tîm gweithredol i wella cyfathrebu â staff. Roedd y cyfle yn darparu llinell welediad glir rhwng y Bwrdd, y tîm gweithredol, a rheolwyr ac arweinwyr tîm, ac roedd wedi cael adborth ac ymgysylltiad cadarnhaol. Roedd yr eitemau yn y cyfarfod yn cynnwys dathlu llwyddiannau.
12. Amlinellwyd ymateb CNC i'r llyfogydd diweddar. Prif gyfrifoldebau'r sefydliad yn y maes hwn oedd rhybuddion a chynghor, cefnogaeth i'r gwasanaethau golau glas, a chynnal a chadw asedau amddiffyn rhag llyfogydd. Amlinellwyd yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt yn bennaf gyda chyfeiriad penodol at Sir Fynwy. Roedd CNC wedi cael adborth cadarnhaol gan yr awdurdodau lleol, ac roedd y rhybuddion cynnar wedi galluogi gwaith paratoi. Gyda'r cynnydd yn y mathau hyn o ddigwyddiadau, byddai angen i CNC ystyried rheoli dalgylchoedd.
13. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol yr wybodaeth ddiweddaraf am ganolfannau ymwelwyr. Byddai'r ymarferion marchnata ar gyfer Nant Bwlch yr Arian a Choed y Brenin yn cychwyn cyn hir. Amlinellwyd y cyfleoedd i brydlesu'r canolfannau ymwelwyr gyda'r nod o ddod o hyd i bartneriaid cynaliadwy hirdymor. Mae Ynys-las eisoes wedi elwa o bartneriaeth â Hwb Cymunedol Gors. Ymhellach i ymholiad, rhoddwyd sicrwydd y byddai partneriaeth

Ynys-las yn cael ei monitro'n ffurfiol. Byddai pwyntiau monitro priodol hefyd yn cael eu hymgorffori mewn contractau ar gyfer y ddwy ganolfan ymwelwyr arall, a fyddai'n dibynnu ar bwy fyddai'n eu prydlesu. Roedd CNC yn parhau i fod wedi ymrwymo i dryloywder, mynediad cyhoeddus a diogelu'r amgylchedd. Byddai'r Bwrdd yn cael gwybod ynglŷn â'r broses.

14. O ran digwyddiad llifogydd Sir Fynwy, holwyd a fyddai proses adolygu perygl llifogydd yn cael ei sbarduno'n awtomatig. Roedd proses ffurfiol o dan adran 19 a fyddai'n cael ei harwain gan yr awdurdodau lleol gyda mewnbwn CNC. Cadarnhawyd bod y broses ar y gweill. Byddai'r mapiau llifogydd yn cael eu diweddarau yn dilyn y digwyddiad ac roedd data hydrometrig wedi'i gasglu ar gyfer adolygiad mewnol i wella dealltwriaeth CNC a sut roedd yn ymateb i ddigwyddiadau yn y dyfodol.
15. O ran y diweddariad ar Heidelberg Materials Cement, gofynnwyd a ellid dysgu gwersi o ganlyniadau llwyddiannus a'u prif ffyrddio mewn gwaith ehangach o ran datgarboneiddio a thu hwnt. Gofynnwyd hefyd a oedd rheoleiddio yn cael ei drafod mewn unrhyw fanylder gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Byddai grŵp yn adolygu llwyddiant Heidelberg Materials Cement o dan Amcan Llesiant 2 i ledaenu'r dysgu i'r sefydliad ehangach. Gwnaed y pwynt yn dda gan mai anaml y byddai CNC yn cwblhau adolygiad pan oedd canlyniad llwyddiannus wedi bod.
16. Nid oedd unrhyw grwpiau dynodedig o'r Bwrdd ar gyfer rheoleiddio. Er bod agweddau'n cael eu hadrodd fel busnes fel arfer, nid ydynt wedi'u hintegreiddio'n gyson ag olrhain dangosyddion perfformiad allweddol. Roedd y tîm gweithredol wedi trafod yr angen am ddull mwy strwythuredig yn flaenorol. Roedd adolygiad y pwyllgor wedi tynnu sylw at fwlch mewn goruchwyliaeth reoleiddiol y byddai angen mynd i'r afael ag ef.
17. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer rhyddhau afancod, ac a fyddai dull tebyg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ailgyflwyno eryrod. Darparwyd trosolwg o'r cais am drwydded ar gyfer eryrod gan grŵp sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Caerdydd gan Steve Ormerod. Byddai angen i geisiadau fynd drwy brotocol yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur a byddai angen i'r cyflwyniad gael ei gwblhau'n ofalus a thros gyfnod sylweddol o amser. Doedd dim bwriad i ryddhau afancod ar hyn o bryd. Y cam nesaf yn y broses fyddai sefydlu fforwm afancod i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i drafod strategaeth.
18. Diolchodd y cadeirydd i'r Prif Weithredwr Dros Dro am y diweddariad am y llifogydd a thynnodd sylw at y ffaith nad oedd digwyddiadau o'r fath yn brin mwyach. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gwella cyflymder a chywirdeb darogan a chanmolwyd y cydlynw llwyddiannus yn ystod digwyddiad eleni.
19. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd yr adroddiad Rhywogaethau mewn Perygl wrth ddod â'r argyfwng natur i'r amlwg. Awgrymwyd y gallai un digwyddiad difrifol arwain at ddileu rhywogaethau, gan atgyfnerthu'r angen i ganolbwyntio ar greu cynefinoedd pellach a chyfleu negeseuon yr adroddiad yn effeithiol.

20. Cydnabuwyd pwysigrwydd rhannu gwersi a ddysgwyd o effeithiau newid hinsawdd yn fyd-eang, gan nad oedd ffiniau i'r heriau hyn. Byddai dysgu rhagweithiol gan ranbarthau eraill a dysgu o ymatebion llwyddiannus yn bwysig.

Eitem 5. Adroddiadau diweddarau'r pwyllgorau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y pwyllgorau

Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg – 17 Hydref (Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon)

21. Rhoddodd Pennaeth Llywodraethiant ac Ysgrifennydd y Bwrdd y diweddaraf ar gyfarfod y pwyllgor, gan gynnwys cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Roedd adroddiad gan Archwilio Cymru wedi dod i law ac roedd y pwyllgor wedi cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon i'w cyhoeddi. Roedd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon wedi'u gosod gerbron y Senedd.

Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – 16 Hydref

22. Rhoddodd Steve Ormerod, cadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth, amlinelliad o gylch gwaith y pwyllgor. Canolbwyntiodd y cyfarfod ym mis Hydref ar Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 a sut y gellid cyfleu'r canlyniadau'n briodol.

Pwyllgor Cyllid – 6 Tachwedd

23. Tynnodd Helen Pittaway, cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, sylw at eitemau'r cyfarfod, gan gynnwys yr Adroddiad Perfformiad Ariannol, y cymeradwyaethau ariannol, a'r eglurder a ddarparwyd ar gyllideb 2026/27.

Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

24. Amlinellodd cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig y pwyntiau trafod yng nghyfarfodydd mis Hydref, gan gynnwys yr adroddiad archwilio ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan Archwilio Cymru, dynodiadau diweddar, a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd ar ddod i'w hystyried ar gyfer dynodiad. Trafododd y pwyllgor hefyd gyflwyno ein hymrwymyiadau 30x30. Roedd cyflwyniad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a sut y gallai gyflawni ein hymrwymyiadau 30x30 wedi'i ddarparu.
25. Tynnodd Steve Ormerod sylw at y ffaith bod enw Cymraeg bellach ar gyfer Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar sail Ardal. Roedd grŵp gweithredu strategol Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyflwyno ymgeiswyr.

Fforwm Pysgodfeydd Cymru – 21 Hydref

26. Rhoddodd Steve Ormerod, fel cadeirydd y Fforwm Pysgodfeydd a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, grynodedb o rolau pob un ohonynt.
27. Trafododd y Fforwm Pysgodfeydd ym mis Hydref yr asesiad stoc diweddar o eogiaid a brithyllod môr, a oedd â statws Coch Melyn Gwyrdd o Goch ar gyfer y

rhan fwyaf o Gymru. Trafodwyd hefyd yr ymrwymiadau y byddai Cymru yn eu cyflwyno i Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd (NASCO) ar gyfer camau gweithredu allweddol dan bwysau a strategaeth pysgodfeydd ar gyfer CNC a fyddai'n gallu gwrthsefyll newidiadau yn yr hinsawdd.

Fforwm Rheoli Dŵr Cymru – 13 Tachwedd

28. Cyfarfu Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar 13 Tachwedd, gan drafod y broses gyfredol ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Cynhaliwyd gweithdy ochr yn ochr ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynhaliodd asesiad o'r effaith ar iechyd y broses.

Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – 4 Tachwedd

29. Rhoddodd Lesley Jones, fel y cadeirydd, yr wybodaeth ddiweddaraf am y pynciau a drafodwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd. Roedd hyn yn cynnwys diweddariad ar y Parc Cenedlaethol arfaethedig a'r broses ymgynghori gysylltiedig. Roedd y drafodaeth hefyd yn ymdrin â gwaith ar ddiweddarau a chyfleu'r Cod Cefn Gwlad, a rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar y cynllun peilot cyntaf ar gyfer y Llwybr Cenedlaethol. Cynigiodd y fforwm gyfle i randdeiliaid roi adborth, a thynnwyd sylw at werth ymgysylltu rhwng rhanddeiliaid, CNC a Llywodraeth Cymru.
30. Holodd y cadeirydd a oedd arweinwyr tîm gweithredol ar gyfer pob un o'r fforymau. Cadarnhawyd bod yr holl fforymau o fewn cylch gwaith Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Trwyddedu a Pholisi.

Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Cyllid

Cyflwynwyr: Mark Collins, Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 2

31. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Rhoddodd Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 2 drosolwg o'r Adroddiad Perfformiad Cyllid, a oedd hefyd wedi'i drafod gyda'r tîm gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid. Nododd cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod y Pwyllgor wedi trafod sut y gellid defnyddio'r tanwariant.
32. Trafododd y Bwrdd yr opsiynau sydd ar gael i ddefnyddio'r tanwariant a byddai hyn yn cael ei ddwyn yn ôl i'w drafod ymhellach yn dilyn cynnig cytunedig gan Lywodraeth Cymru. Byddai dadansoddiad o gostau staff a chostau eraill yn cael ei ddarparu mewn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn cael eglurhad pellach.

PENDERFYNIAD: Cymeradwywyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf gan y Bwrdd.

Eitem 7. Diweddariad chwarterol Ch2 ar ddangosfwrdd perfformiad y cynllun busnes

Cyflwynwyr: Arweinwyr yr amcanion llesiant; Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli Rhaglenni; James Cornelius, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol

33. Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr eitem ac amlinellodd fod y cynllun busnes blynyddol yn seiliedig ar 28 o ymrwymadau a oedd yn gydnaws â'r cynllun corfforaethol a llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru. Roedd perfformiad CNC wedi gwella yn Chwarter 2, gyda mwy o amcanion wedi'u graddio'n wyrdd a dim yn goch, oherwydd codi'r rhewi mewn recriwtio ac ailflaenoriaethu gweithgareddau allweddol. Roedd cynnydd wedi'i wneud gyda recriwtio, gyda 93 o swyddi yn y cyfnod recriwtio neu hysbysebu, a chyfanswm recriwtio o 515 ers i'r ymarfer ddechrau. Roedd CNC yn recriwtio i strwythur fforddiadwy, gan gynnal lle i fod yn hyblyg yn y gyllideb a defnyddio model economi gymysg ar gyfer cyflawni.
34. Eglurwyd y broses ar gyfer newid statws Coch Melyn Gwyrdd ymrwymadau'r cynllun busnes, ac roedd yn cynnwys craffu gan y tîm cynllunio busnes, y tîm arwain a'r Bwrdd i sicrhau tryloywder a rheolaeth dros adrodd ar berfformiad.
35. Roedd strategaeth ariannol yn cael ei datblygu i gyd-fynd ag amserlen y cynllun corfforaethol, gyda'r nod o egluro'r paramedrau cynllunio aml-flwyddyn. Trafododd y Bwrdd yr angen am ddangosyddion perfformiad allweddol mwy strategol a dangosfwrdd byw i wella goruchwyliaeth a gwneud penderfyniadau.
36. Amlinellwyd canfyddiadau adolygiad Archwilio Cymru o ddynodiadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Roedd CNC yn defnyddio'r argymhellion i ailosod ac ailganolbwyntio ymdrechion cadwraeth, gyda chmau rheoli cadarn ac ymrwymiad i ddysgu o adolygiadau allanol a mewnol. Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd cyfathrebu clir a diweddariadau rheolaidd i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o golledion bioamrywiaeth.
37. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad adolygiad portffolio'r tîm gweithredol, gyda recriwtio dros dro ar y gweill ar gyfer rolau cyfarwyddwyr gweithredol allweddol, a chynlluniau ar gyfer ymgyrch recriwtio allanol lawn yn y flwyddyn newydd, wrth sicrhau parhad a chydymffurfedd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.
38. Trafodwyd y Strategaeth Gaffael a Chontractau newydd, a oedd â'r nod o wneud defnydd o gadwyn gyflenwi CNC i ysgogi canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Roedd y strategaeth wedi'i rhannu â rhanddeiliaid ac fe'i gwelwyd fel dull da o reoli caffael yn y sector cyhoeddus.
39. Rhoddwyd diweddariad ar y cyfnod newydd ar gyfer canolfannau ymwelwyr Coed y Brenin a Bwlch Nant yr Arian. Roedd hyn yn cynnwys lansio'r ymarfer marchnata newydd ar gyfer partneriaid hirdymor a byddai'r trefniadau'n cael eu monitro. Roedd CNC yn chwilio am bartneriaid i wella'r safleoedd er budd y gymuned a busnesau wrth ddiogelu mynediad i'r cyhoedd. Cynlluniwyd y broses i fod yn gynhwysol, gan ganiatáu cynigion gan grwpiau cymunedol, busnesau a mentrau cymdeithasol.
40. Gofynnodd y Bwrdd am sicrwydd ynghylch trefniadau monitro ar gyfer y canolfannau a redir gan y gymuned a chadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol y byddai monitro mwy ffurfiol yn cael ei

gynnwys mewn contractau ar gyfer y lesedd newydd. Byddai'r tîm masnachol yn rheoli'r broses cyn trosglwyddo i'r timau sy'n seiliedig ar le.

Eitem 8. Unrhyw fater arall

41. Nid oedd unrhyw fater arall.

Eitem 9. Sut wnaethon ni berfformio yn y cyfarfod hwn?

42. Trafododd y Bwrdd y cyfarfod ac roeddent yn canmol y defnydd o'r Gymraeg a'r gwasanaethau cyfieithu a ddefnyddiwyd drwy gydol y cyfarfod. Trafodwyd lleoliad cyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror.

Diwedd y cyfarfod

Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus

43. Ymatebodd y Bwrdd i gwestiynau gan y cyhoedd ar ymgysylltu â rheoleiddio niwclear, y Rhaglen Genedlaethol i Adfer Afonydd, rheoli llifogydd, a phapur Adnoddau'r Senedd yn diweddar ar blannu coed.

Cau'r cyfarfod cyhoeddus

Cofnodion Heb eu Cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC (Cyhoeddus)
Lleoliad:	Drwy gyfrwng Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	12 Ionawr 2026
Aelodau yn bresennol:	Neil Sachdev, Cadeirydd Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro Karen Balmer Dr Hushneara Begum Dr Pete Fox Dr Rebecca Colley-Jones Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Helen Pittaway Adam Taylor
Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Lyndsey Rawlinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Lle a Gwasanaeth Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol (yn dirprwyo dros Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol)
Hefyd yn bresennol:	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethiant ac Ysgrifennydd y Bwrdd (pob eitem) Yvonne Burson, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol Keith Davies, Prif Gynghorydd, Tirweddau Gwarchodedig – Eitem 2 Ash Pearce, Arweinydd Tîm, Rhaglen Tirweddau Dynodedig – Eitem 2 Bill Cordingly, Brown Jacobson – Eitem 2 Jessica Bannon, Brown Jacobson – Eitem 2

Sylwedyddion yn bresennol:	Richard Sumner, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Tirwedd a Harddwch Naturiol Ffion Roberts, Uwch-swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu Rosie Plummer Julie James Martin Glyn Murray
Ymddiheuriadau:	Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
Ysgrifenyddiaeth:	Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Rhannon Spencer, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Datganiadau o fuddiant	Karen Balmer – yn byw gerllaw ardal ddynodedig arfaethedig y Parc Cenedlaethol (mynychodd y cyfarfod ar gyfer Eitem 2 fel sylwedydd)

Eitem 1. Dechrau'r cyfarfod

Noddwr a chyflwynydd: Neil Sachdev, Cadeirydd

1. Agorodd y cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb. Nodwyd datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel uchod. Cadarnhawyd bod cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol blaenorol CNC ill dau yn byw yn ardal ddynodiad arfaethedig y Parc Cenedlaethol ac wedi cael eu hymesgusodi o'r trafodaethau a'r casglu tystiolaeth drwy gydol y broses. Ymesgusododd Karen Balmer o'r penderfyniad ar Eitem 2 gan ei bod yn byw gerllaw'r Parc Cenedlaethol arfaethedig ac roedd yn bresennol fel sylwedydd yn unig.

Eitem 2. Penderfyniad ar y Parc Cenedlaethol

Noddwr: Dom Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau Cenedlaethol
Cyflwynwyr: Keith Davies, Prif Gy nghorydd, Tirweddau Gwarchodedig; Ash Pearce, Arweinydd Tîm, Rhaglen Tirweddau Dynodedig; Bill Cordingly, Brown Jacobson; Jessica Bannon, Brown Jacobson; Richard Sumner, Cy nghorydd Arbenigol Arweiniol, Tirwedd a Harddwch Naturiol; Ffion Roberts, Uwch-swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu

2. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau Cenedlaethol yr eitem a thynnodd sylw at yr argymhellion ar gyfer y Bwrdd. Cyflwynodd y Prif Gy nghorydd, Tirweddau Gwarchodedig, yr wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Tirweddau Dynodedig. Darparodd Bill Cordingly, o Brown Jacobson, y cyd-destun cyfreithiol a'r ystyriaethau perthnasol. Roedd y penderfyniad wedi'i lywodraethu gan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden yn yr awyr agored.

3. Amlinellwyd cefndir y rhaglen, gan gynnwys y camau o fewn y broses ddynodi gydag CNC a Llywodraeth Cymru. Roedd CNC wedi cynhyrchu a dilyn nodyn cyfarwyddyd clir yn amlinellu pob cam statudol. Cyflwynwyd esblygiad o'r ffin, a oedd yn cynnwys yr ardaloedd a oedd wedi'u hychwanegu at y broses wrth asesu'r dirwedd yn ffurfiol. Roedd y tîm wedi gwerthuso a dadansoddi'r dystiolaeth a'r manylion ac wedi creu map ffurfiol yn 2025.
4. Cyflwynwyd trosolwg o'r ymgynghoriad ac ymatebion rhanddeiliaid, ac yna safbwyntiau'r sector mewn perthynas â ffermio a defnydd tir, ynni adnewyddadwy, mwynau, yr amgylchedd, a hamdden. Roedd yr adborth a ddarparwyd yn cynnwys heriau i'r asesiad a newidiadau i'r ffin, ar ardaloedd ychwanegol ac ar amddiffyn y dirwedd rhag datblygiad. Ymhlith pryderon eraill a godwyd gan yr awdurdodau lleol roedd pryderon ynghylch cyllido hirdymor, goblygiadau gwasanaethau cynllunio, a fforddiadwyedd. Roedd CNC wedi ailadrodd mai ystyriaethau i Lywodraeth Cymru oedd y rhain, nid profion dynodiad statudol, ac amlinellwyd yr ystyriaethau ehangach nad oeddent yn gysylltiedig â'r profion statudol.
5. Cyflwynwyd yr argymhellion a'r camau nesaf. Roedd y tîm yn argymhell bod y Bwrdd yn gwneud Gorchymyn Parc Cenedlaethol Glyndŵr (Dynodi) 2026 o dan bwerau cyfreithiol a ddarperir gan y gweithdrefnau a nodir yn Neddf 1949 ac yn unol â hwy. Pe bai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r argymhelliad, byddai'r hysbysiadau statudol ffurfiol mewn cyhoeddiadau penodedig yn cael eu cyhoeddi, a byddai'r gorchymyn a'r map ar gael i'w harchwilio yn yr ardal leol, cyn cyflwyno'r gorchymyn i Weinidogion Cymru ei gadarnhau.
6. Diolchodd y cadeirydd i'r tîm am eu gwaith ar y rhaglen hon. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod yr ymgynghorwyr yn cael eu hystyried yn annibynnol, gan fod CNC wedi bod trwy'r broses gaffael. Trafododd y Bwrdd yr argymhelliad ac awgrymwyd y dylid rhannu'r dystiolaeth a gasglwyd gyda Llywodraeth Cymru hefyd, gan gynnwys y dystiolaeth ychwanegol nad oedd y Bwrdd wedi bod yn rhan ohoni. Cydnabu'r Bwrdd y risgiau o amgylch camddealltwriaeth y cyhoedd o rôl CNC.
7. Trafodwyd enw'r Parc Cenedlaethol arfaethedig hefyd. Roedd rhai ymatebion negyddol wedi bod yn flaenorol ynghylch yr enw, ond roedd hyn wedi mynd trwy broses drylwyr a oedd wedi'i chrynhof yn yr adroddiad. Byddai deddfwriaeth yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r gorchymyn, gyda neu heb addasiadau, a phe baent yn dymuno newid yr enw arfaethedig, byddai angen ymgynghori ag CNC. Cadarnhawyd na fyddai adborth yr ymgynghoriad yn cyfiawnhau ailagor dadl ynghylch yr enw arfaethedig.
8. Cytunwyd y dylid pwysleisio'r canlynol i Lywodraeth Cymru: yr angen am gyllid cynaliadwy hirdymor; cynllun clir i fynd i'r afael â phryderon y cyhoedd; a'r angen i sicrhau bod llywodraethiant yn y dyfodol yn cefnogi deddfwriaeth fodern Cymru, yn ogystal â blaenoriaethau o ran yr hinsawdd a byd natur. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion ar gyfer y Gorchymyn Dynodi Parc Cenedlaethol.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad ar gyfer y Gorchymyn Dynodi Parc Cenedlaethol.

Eitem 3. Penderfyniad ar y gyllideb ar gyfer ardaloedd draenio mewnol

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Pete Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

9. Cyflwynodd cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yr eitem, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb ar gyfer ardaloedd draenio mewnol a'i chymeradwyo ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd, yn dilyn trafodaethau gyda'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd. Cadarnhawyd bod hwn yn ofyniad blynyddol i CNC. Y cynnydd arfaethedig cyfartalog oedd 5.5%, a oedd yn adlewyrchu pwysau chwyddiant. Amlinellwyd yr heriau yn ystod yr ymgynghoriad â ffermwyr, ond cytunwyd bod CNC wedi cyflawni gwerth am arian.
10. Trafododd a chymeradwyodd y Bwrdd y gyllideb ar gyfer ardaloedd draenio mewnol.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y gyllideb ar gyfer ardaloedd draenio mewnol.

Cau'r cyfarfod cyhoeddus

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad y cyfarfod:	12 Chwefror 2026
Teitl y papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
Cyfeirnod y papur:	26-02-B01
Cyflwynwyd y papur gan:	Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro
Diben	Gwybodaeth a thrafodaeth
Crynodeb	Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion cyfredol.

Cyflwyniad

- Cyflwynwyd ein strwythur newydd ar gyfer y cyfarwyddiaethau yng nghanol mis Rhagfyr. Mae ein cyfarwyddiaethau Gweithrediadau bellach yn cael eu harwain gan Lyndsey Rawlinson a Dom Driver, sy'n goruchwyllo Gweithrediadau (Lle) a Gweithrediadau Cenedlaethol yn y drefn honno. Mae Prys Davies yn arwain ein cyfarwyddiaeth Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth newydd, gan gyfuno elfennau o'r hen gyfarwyddiaethau Strategaeth a Datblygu Corfforaethol a Thystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu. Mae ein cyfarwyddiaeth Pobl, Fflyd a Chyfleusterau hefyd yn newydd, gan adlewyrchu'r angen cydnabyddedig am arweinyddiaeth ar lefel weithredol yn y maes hwn, a bydd yn cael ei harwain dros dro gan Louise White. Mae'r cyfarwyddiaethau Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol a Chyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn parhau o dan arweinyddiaeth Sarah Jennings a Rachael Cunningham yn y drefn honno.
- Bydd y broses o alinio adrannau a thimau o fewn y cyfarwyddiaethau newydd yn cymryd ychydig o amser i'w chwblhau'n llawn, wrth i systemau a phrosesau ystafell gefn gael eu diweddarau i adlewyrchu'r strwythur newydd. Mae partneriaethau busnes ar draws y sefydliad yn cael eu hadolygu a'u haddasu lle bo angen. Mae recriwtio parhaol yn parhau ar gyfer rolau allweddol yn y Tîm Arwain ac mae trafodaethau cyllideb ar waith i sicrhau buddsoddiad, ble bynnag y gallwn, mewn timau rheng flaen, yn enwedig y rhai a nodwyd fel meysydd i fuddsoddi ynddynt o dan yr achos dros newid. Mae'r broses hon o adolygu ac adnewyddu yn teimlo'n briodol ac yn optimistaidd wrth i ni ddechrau'r flwyddyn newydd.
- Ym mis Rhagfyr, cynhaliom gyfarfod rheolaidd ein Cyngor Partneriaeth, sy'n bwynt cyswllt pwysig rhwng y sefydliad a'n partneriaid undebau llafur. Rydym yn ymdrechu i gynnal cyfathrebu agored a chysylltiadau gwaith cryf gyda'r undebau llafur ac mae'r cyfarfod hwn bob amser yn teimlo'n adeiladol ac yn gefnogol i'r ddwy ochr. Roedd yr agenda'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf arferol am fusnes a chyllid, yr wybodaeth ddiweddaraf ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, a thrafodaeth yn cwmpasu

cynllunio adnoddau, yr opsiynau dros cau swyddfa Maes-y-ffynnon, a'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Mae'r undebau llafur bellach wedi'u cynrychioli ar ein Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ac mae'n ymddangos bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda.

4. Mynychais y Pwyllgor Llesiant, Iechyd a Diogelwch ym mis Rhagfyr hefyd. Gwnaethom ystyried yr elfennau iechyd a diogelwch ar y Gofrestr Risgiau Strategol, yr wybodaeth ddiweddaraf ar systemau gweithio'n unigol PeopleSafe, a'n hardystiad ISO45001 newydd. Daeth y cyflawniad olaf hwn yn dilyn deuddeg diwrnod o archwilio ar draws llawer o'n timau yn ystod mis Tachwedd, a ddatgelodd dri achos bach o ddiffyg cydymffurfio yn unig. Diolch i'n tîm Llesiant, iechyd a diogelwch am eu gwaith caled a'u harweinyddiaeth barhaus wrth sicrhau ein bod yn cynnal safonau mor uchel ar draws yr agweddau amrywiol niferus ar ein gwaith. Rhannwyd y Strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch hyd at 2030 yn y cyfarfod hefyd; mae hyn yn rhoi diogelwch wrth wraidd ein sefydliad, yn gosod nodau clir, ac yn ymrwymo i adrodd tryloyw ac atebol ar ddangosyddion allweddol.
5. Hefyd ym mis Rhagfyr, cyfarfûm â James Jesic o Hafren Dyfrdwy, Gail Davies-Walsh o Afonydd Cymru, a Matthew Edwards a Emma Woodcock o Archwilio Cymru. Ynghyd â Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, a'r pennaeth lleol, mynychais ein cyfarfod rheolaidd gyda'r Cynghorydd Andrew Morgan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cynghorydd Morgan hefyd yn arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr ydym yn cydweithio'n agos â hi ar amrywiaeth o faterion. Roedd ein trafodaeth yn ymdrin ag amddiffynfeydd afonydd a llifogydd yn ddiweddar, a pharatoadau ar gyfer misoedd y gaeaf. Mae gennym berthnasoedd gwaith adeiladol iawn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Rhondda Cynon Taf o dan arweinyddiaeth y Cynghorydd Morgan.
6. Cefais gyfarfod â Phrif Swyddogion Gweithredol y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol – fy swyddogion cyfatebol yn Natural England, NatureScot, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Roedd hon yn drafodaeth ddefnyddiol ac eang ei chwmpas, yn ymdrin â'n cynnydd gyda 30 erbyn 30, newid diwylliant a chydweithrediad. Cytunwyd ar gynnwys y llythyr at y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a gynhelir ym mis Chwefror. Trafodwyd hefyd y blaenoriaethau ar gyfer cyfarfod nesaf y cadeiryddion a'r Prif Swyddogion Gweithredol a gynhelir gan CNC ddechrau'r haf.
7. Gwnaethon gyfarfod â'n tîm nawdd yn Llywodraeth Cymru yn ystod mis Rhagfyr hefyd. Mae eu sylw'n anochel yn symud tuag at yr etholiad sydd ar ddod ym mis Mai ac rydym wedi eu sicrhau ein bod yn paratoi ar gyfer y nifer uwch o Aelodau'r Senedd a'r potensial am gynydd mewn gohebiaeth ynghylch agweddau ar ein gwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ar ein cynnydd da yn ystod y monitro gwell y maent wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda nhw ar y Model Hunanasesu ar gyfer Cymru - holiadur ar gyfer cyrff cyhoeddus hyd braich a fwiadwyd fel gwiriad iechyd o berfformiad, effeithlonrwydd, llywodraethiant ac atebolrwydd - a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae gan bob un o'n Tîm Gweithredol amcanion penodol sy'n gysylltiedig â'r olaf ac â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, er mwyn sicrhau ein bod yn ymgorffori ac yn dangos yr ymddygiadau cywir o'r brig i lawr. Rwyf wedi cael sgysiau ar wahân gydag Usha Ladwa-Thomas o Brifysgol Caerdydd, a ysgogodd ddatblygiad Cynllun Gweithredu

Cymru Wrth-hiliol ac sy'n parhau i gefnogi ei gyflwyniad, er mwyn deall sut y gallwn ni greu diwylliant croesawgar, cynhwysol a mwy amrywiol o fewn CNC.

8. Yn gynnar ym mis Ionawr, cyrhaeddodd ni garreg filltir arwyddocaol yn y broses o ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yn y Gogledd-ddwyrain. Yn dilyn cytundeb y Bwrdd bod Parc Cenedlaethol Glyndŵr arfaethedig a'i ffin yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer dynodiad, gwnaethom lofnodi a selio'r gorchymyn dynodi a dechrau cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus terfynol pellach. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y penderfyniad ynghylch creu'r Parc Cenedlaethol newydd ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r sylwadau a wnaed gan bartïon â diddordeb.
9. Roedd y ffocws ar ddechrau mis Ionawr ar baratoi ar gyfer ein sesiwn graffu flynyddol ym Mhwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd. Mae'r sesiwn hon yn rhoi cyfle i'r pwyllgor ofyn cwestiynau am waith CNC a'n dal i gyfrif am ein perfformiad a'n darpariaeth. Mynychais ochr yn ochr â'n cadeirydd a Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Er bod gennym rywfaint o syniad o feysydd y cwestiynau, mae ein paratoadau'n eang ac yn ddwys; rwy'n ddiolchgar iawn am gefnogaeth cydweithwyr ar draws pob agwedd ar ein gwaith am yr amser maen nhw'n ei neilltuo i ddarparu gwybodaeth a briffiau.
10. Ar y diwrnod, roedd yr holi yn gadarn fel bob amser. Gofynnwyd i'n cadeirydd roi ei fyfyrddau ar ei fisoedd cyntaf, ac aethom ymlaen o'r fan honno at gwestiynau am ein paratoadau ar gyfer etholiadau'r Senedd sydd ar ddod, ein cyllidebau, a phynciau sy'n cynnwys diwygio'r diwydiant dŵr, darogan llifogydd, safleoedd gwarchodedig a phlannu coed. Mynegodd aelodau'r pwyllgor eu bod nhw wedi eu plesio gyda'n dogfen, 'Y Deg Gofyn', sy'n nodi ein galw ar arweinwyr nesaf Cymru i gefnogi cynlluniau clir, beiddgar ac ymarferol sy'n amddiffyn ein hamgylchedd, ein cymunedau a'n hinsawdd am genedlaethau i ddod.
11. Ym mis Ionawr, cyfarfûm â Roch Cheroux, Prif Swyddog Gweithredol newydd Dŵr Cymru, a chynhaliwyd sesiwn ar y cyd gyda thîm Dŵr Cymru gyda'n Tîm Gweithredol, a oedd yn canolbwyntio ar adeiladu ein perthnasoedd i hwyluso mwy o ymgysylltu strategol wrth i ni ddechrau ar y cyfnod buddsoddi mwyaf uchelgeisiol hyd yma. Wedi hynny, mynychais gyfarfod Water UK yng Nghanolfan Ymwelwyr Cronfeydd Dŵr Llysfaen a Llanisien gyda David Henderson, Prif Swyddog Gweithredol Water UK, a chynrychiolwyr o Dŵr Cymru a Llywodraeth Cymru. Ar wahân, cyfarfûm â Chris Walters, Prif Swyddog Gweithredol dros dro Ofwat, sy'n arwain y sefydliad drwy'r cyfnod pontio presennol.
12. Ym mis Ionawr, dymunom ymddeoliad hapus i Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau. Mae Gareth wedi bod gydag CNC a'i sefydliadau rhagflaenol ers 42 o flynyddoedd a bydd ei gydweithwyr ar draws y sefydliad yn gweld ei eisiau'n fawr. Gyda'i brofiad hir a'i wybodaeth am CNC a'n hamgylchedd gwaith ehangach, mae wedi bod yn ffynhonnell amhrisiadwy o gyngor a chefnogaeth ddoeth i mi fel Prif Weithredwr dros dro.

Diweddariadau Strategol

Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Maethynnau

13. Bydd y tasglu gweinidogol, a sefydlwyd yn wreiddiol ar ddiwedd yr hydref i gyfarfod chwe gwaith, yn parhau i gyfarfod yn ystod y gwanwyn. Mae hyn wedi canolbwyntio ar faethynnau morol, sef nitrogen anorganig toddedig a methiannau yng nghyrrff dŵr Cilfach Tywyn Fewnol a'r Ddau Gledau Mewnol. Y nod fu cefnogi'r awdurdodau cynllunio lleol yr effeithiwyd arnynt - yn benodol Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac, i raddau llawer yn llai, Castell-nedd - fel awdurdodau cymwys i allu llywio'r Rheoliadau Cynefinoedd wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio datblygu.
14. Cyhoeddwyd datganiad gweinidogol gan Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, cyn gwyliau'r Nadolig yn nodi bod cyfarfodydd y tasglu – sy'n dwyn ynghyd uwch-swyddogion o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a Dŵr Cymru – wedi bod yn adeiladol ac yn gydweithredol, gan adlewyrchu'r uchelgais a rennir gan bob plaid i ddod o hyd i atebion cynaliadwy gyda'r brys mwyaf posib. Cadarnhaodd y datganiad fod cydrannau hanfodol ar gyfer ateb llwyddiannus wedi'u nodi a'u cyflymu, gan gynnwys y cyfrifwr maethynnau a chanllawiau dan arweiniad arbenigwyr, llawlyfr dan arweiniad yr awdurdodau lleol ar gyfer datblygwyr, sydd dan ddatblygiad ac wedi cyrraedd cam datblygedig iawn, a grŵp masnachu credydau maethynnau cenedlaethol, sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Bydd yr offer a'r canllawiau hyn yn caniatáu i ddatblygwyr a swyddogion cynllunio nodi cyfraniad maethynnau eu datblygiadau a rhoi mesurau lliniaru effeithiol ar waith. Mae'r datganiad yn dod i'r casgliad bod optimistiaeth bod llwybr clir yn cael ei greu er mwyn i ddatblygiadau ailddechrau.

Gorsaf Bŵer Cei Connah, Sir y Fflint

15. Mae Gorsaf Bŵer Cei Connah yn Sir y Fflint wedi'i nodi fel datblygiad blaenoriaeth i ymuno â Hynet, clwstwr o ddiwydiannau yng Ngogledd Cymru a Lloegr sy'n anelu at ddal maint enfawr o garbon a'i storio mewn meysydd nwy sydd wedi'u disbyddu o dan wely'r môr. Mae'r Gwasanaeth Cyngori ar Drwyddedu a Chynllunio Datblygu wedi cael gwahoddiad i gyfarfod â'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net i drafod cyflymu'r broses gynllunio barhaus ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Rydym yn ymdrin â hyn yn ofalus gan fod ein sylwadau i'r Arolygiaeth Gynllunio wedi tynnu sylw at bryderon sylweddol yn flaenorol ynghylch effeithiau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Ardal Cadwraeth Arbennig, gan gynnwys effeithiau ar ansawdd aer. Wedi hynny, cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gynllunio benderfyniad gweithdrefnol yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth i gefnogi achos rhanddirymiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n dangos rhesymau hanfodol, sef er budd cyhoeddus tra phwysig, erbyn diwedd y llynedd.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

16. Yn dilyn ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, lansiwyd ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 yn ffurfiol ar 29 Ionawr mewn digwyddiad yn SPARK yng Nghaerdydd. Wedi'i gyhoeddi i gyd-fynd â thymor y Senedd, mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn sylfaen dystiolaeth awdurdodol Cymru ar reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.
17. Ynghyd â chyfraniadau gan ein cadeirydd a chydweithwyr yn CNC, roedd y siaradwyr allweddol yn y digwyddiad yn cynnwys y Dirprwy Brif Weinidog Huw Irranca-Davies AS, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Derek Walker, ac Elspeth Jones, Gwarcheidwad Natur gyda Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Roedd y

digwyddiad yn nodi rhyddhad ffurfiol yr adroddiad, ac yn gyfle i ddechrau sgwrs ehangach gyda'r nod o sbarduno rhanddeiliaid i rannu syniadau ar gyfer camau trawsnewidiol sy'n lleihau pwysau ar yr amgylchedd. Roedd y lansiad hefyd yn gyfle i ni gyflwyno *Pontydd i'r Dyfodol*, fframwaith ymarferol sy'n rhoi tystiolaeth yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar waith i newid systemau yng Nghymru – rhywbeth y mae'n rhaid ei gyflawni.

Cytundeb Cydweithrediad yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio

18. Mae'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio ac CNC yn gweithio ar gytundeb llorweddol pum mlynedd newydd er mwyn i'r awdurdod ddarparu sicrwydd geodechnegol a chyfundrefn archwilio tomenni glo. Rydym yn gweithio drwy gwestiynau ynghylch maint yr atebolrwydd a gwnaethom gyfarfod ym mis Rhagfyr i ddeall cwestiynau terfynol yr awdurdod. Maen nhw wedi cadarnhau y byddan nhw'n parhau i ddarparu gwasanaethau tomenni i CNC nes bod y cytundeb wedi'i gytuno a'i lofnodi.
19. Rydym wrthi'n cyflwyno cais am grant diogelwch tomenni glo o £10,409,469 i gwmpasu'r tair blynedd nesaf. Mae hyn yn adeiladu ar gydweithrediad Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru ym maes diogelwch tomenni glo. Bydd sicrwydd cyllidebol dros y tair blynedd nesaf ar gyfer Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo aml-flwyddyn yn cefnogi dyfarnu contractau mwy o faint a mwy effeithlon, gan leihau costau tendro ailadroddus a rhoi gwell eglurder a mwy o hyblygrwydd wrth gynllunio a chyflawni ein cynlluniau.

Diweddariadau Gweithredol

Piblinell y De-ddwyrain, Gwastadeddau Gwent

20. Mae Piblinell y De-ddwyrain yn brif gyflenwad 33 cilometr sy'n cludo carthion dan bwysau i dir uwch o Gas-gwent i waith trin dŵr gwastraff Trefonnen. Mae'n croesi pedwar o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent a thir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol ag Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig a Safle Ramsar Aber Afon Hafren. Mae'r bibell wedi methu ac wedi arwain at nifer o ddigwyddiadau llygredd sylweddol dros y blynnyddoedd diwethaf. Gyda'n cefnogaeth ni, sicrhodd Dŵr Cymru gymeradwyaeth Ofwat yn eu cynllun busnes Adolygiad Prisïau 24 am £81 miliwn sy'n gysylltiedig ag ysgogiad i wella bioamrywiaeth i ddatrys y mater.
21. Mae nifer o opsiynau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ac mae Dŵr Cymru wedi cael cais i gyflwyno arfarniad o'r opsiynau fel y gellir cytuno ar yr ateb terfynol gyda'r rheoleiddwyr a dechrau'r gwaith cyn gynted â phosibl. O ystyried maint, y cymhlethdod a'r angen i sicrhau ateb sy'n cyd-fynd ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a chydymffurfedd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru, mae'r broses o ddethol opsiynau yn hanfodol. Mae grŵp rhanddeiliaid sy'n cynnwys CNC, Llywodraeth Cymru, Ofwat a Dŵr Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio'r gwaith.

Troseddau Gwastraff – Whitewall, Magwyr

22. Mae tipio anghyfreithlon a throseddau gwastraff yn broblem sy'n difetha Gwastadeddau Gwent ac rydym yn delio â nifer o gwynion am y mater hwn. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol ledled y De-ddwyrain i benderfynu pwy sydd fwyaf priodol i ddelio â'r troseddau hyn a sut orau y gall yr asiantaethau ddefnyddio pwerau ac adnoddau i fynd i'r afael â'r mater. Mae gweithio amlasiantaethol yn allweddol.
23. Un safle sy'n denu llawer o ddiddordeb cyhoeddus yw Whitewall, Magwyr. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Fynwy a Heddlu Gwent i sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer y safle a diogelu'r amgylchedd. Mae gennym ystod o opsiynau gorfodi ar gael i ni ac rydym yn bwrw ymlaen â champau yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol. Mae hwn yn safle cymhleth iawn sy'n cymryd peth amser i'w ddatrys.

Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog

24. Mae diddordeb gwleidyddol yn nyfodol Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog yn parhau i fod yn uchel, gyda chyhoeddiad ym mis Rhagfyr gan y Dirprwy Brif Weinidog, Huw Irranca-Davies AS, o gyllid wedi'i warantu o hyd at £400,000 bob blwyddyn am y pum mlynedd nesaf i gefnogi'r cyflenwad parhaus o ddŵr cymorth o gronfa Llyn Wysg gan Dŵr Cymru. Byddai Glandŵr Cymru yn cyfrannu £100,000 ychwanegol bob blwyddyn am y pum mlynedd nesaf.
25. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Dirprwy Brif Weinidog, a sefydlwyd i ystyried opsiynau atodol eraill ar gyfer cyflenwi dŵr i'r gamlas, wedi sefydlu dau is-grŵp pellach, sef grŵp cynghori technegol a grŵp awdurdodau lleol. Mae cylch gorchwyl ac aelodaeth y grwpiau hyn yn y broses o gael eu cytuno. Bydd gan CNC sedd ar y ddau is-grŵp.
26. Rydym yn parhau i weithio gyda Glandŵr Cymru ar welliannau i'w seilwaith er mwyn galluogi gwell monitro a rheolaeth o'r dŵr maen nhw'n ei dynnu ar gyfer y gamlas o afon Wysg ger Cored Aberhonddu, a fydd yn helpu i sicrhau gwell rheolaeth ar eu tynnu dŵr a lleihau'r tebygolrwydd o or-dynnu yn ystod llifoedd isel yn afon Wysg.

Safle Tirlenwi Withyhedge, Sir Benfro

27. Rydym wedi gweld cynnydd mewn arogleuon dros y ddau fis diwethaf (gyda adroddiadau mewn ffigurau dwbl ar rai dyddiau), o bosibl yn deillio o Safle Tirlenwi Withyhedge. Mewn ymateb, mae aelodau o Dîm Rheoleiddio Diwydiant y De-orllewin wedi gofyn am gymorth gan Gyngor Sir Penfro i gynnal asesiadau arogl, ac wedi mynychu'r safle ym mis Rhagfyr a mis Ionawr i gynnal archwiliadau rheoleiddiol. Rydym wedi nodi bod nwy tirlenwi yn cael ei gynhyrchu o Gell 9 (a lenwyd rhwng mis Ionawr a mis Medi y llynedd) a hefyd o Gell 10A (a lenwyd o fis Medi i fis Rhagfyr). Fodd bynnag, mae seilwaith ar waith i gasglu nwy tirlenwi yn y ddwy ardal.
28. Achoswyd yr arogleuon a ddaeth i'r amlwg yn ystod mis Rhagfyr gan allyriadau o ran o Gell 9 nad oedd wedi'i chapio ar y pryd. Cwblhawyd y gwaith peirianeg o gapio'r gell ddiwedd mis Rhagfyr. Gallai arogleuon mwy diweddar oddi ar y safle fod o Gell 10A. Dechreuodd y tymor agored ar gyfer gwasgaru slyri ar 16 Ionawr felly efallai y bydd achosion lle gallai adroddiadau am arogl o Withyhedge fod mewn gwirionedd yn wasgariad amaethyddol a gallai hyn wneud profi digwyddiadau yn fwy heriol, ond byddwn yn parhau i asesu unrhyw adroddiadau a ddaw i law yn unol â'n

gweithdrefnau ac yn gweithio'n agos gyda'r gweithredwr yn ôl yr angen i ddatrys unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â safleoedd tirlenwi.

29. Mae arweinydd y grŵp ymgyrchu Stop the Stink wedi cysylltu â ni, gan nodi eu bod wedi ailgychwyn eu camau gweithredu yn erbyn y safle tirlenwi, er nad yw'n glir ar hyn o bryd pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd. Ymwelsom â dau gynrychiolydd y grŵp ym mis Rhagfyr i roi diweddariad llafar ar waith rheoleiddio ar y safle. Mae'r ymchwiliad i droseddau a amheuir yn erbyn Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (torri trwyddedau) yn agosáu at y camau terfynol, gyda gofyn i weithredwr y safle tirlenwi fynychu cyfweiliad o dan rybuddiad.

Hufenfa Dairy Partners, Sir Gaerfyrddin

30. Yn ystod y tri mis olaf yn 2025, daeth dros 100 o adroddiadau i CNC am arogleuon o safle Hufenfa Dairy Partners yng Nghastellnewydd Emlyn. Mynychodd swyddogion rheoleiddio o Dîm Rheoleiddio Diwydiant y De-orllewin y safle a chadarnhau bod arogleuon oddi ar y safle ar bedwar achlysur yn ystod y cyfnod hwn. Ym mis Tachwedd, priodolwyd arogleuon i seilwaith wedi'i ddifrodi (cloriau tanciau a fentiau) a digwyddiad o orlif slwtsh a oedd yn rhwystro system cyfyngiadau arogleuon. Ymddengys fod y diffygion o ran cynnal a chadw'r offer yn hysbys i'r gweithredwr, ond nid aethpwyd i'r afael â nhw nes i'n swyddogion eu nodi.
31. Rydym yn parhau i gael cwynion yn rheolaidd am sŵn mewn cysylltiad â'r safle. Cytunwyd ar gynlluniau gweithredu ar gyfer gwelliannau i ffynonellau arogl a sŵn posibl, a bydd cynnydd yn cael ei asesu yn eu herbyn yn y misoedd nesaf. Mae'r gweithredwr wedi nodi dosio ychwanegol o'r gwaith trin elifion ar ddiwedd 2025 mewn ymateb i amrywiadau yn y mewnlif. Bydd hwn yn ffocws arall ar gyfer craffu rheoleiddiol sydd ar ddod gan CNC.
32. Mae'r berthynas rhwng y gweithredwr a'r trigolion yn hynod o wrthwynebus ac mae'n dod yn heriol i ni reoli ein perthnasoedd ein hunain â nhw. Mae pryder cynyddol ynghylch yr adnodd sydd ei angen i reoleiddio'r safle, a'r effaith gyfyngedig y mae'n ymddangos y mae hyn yn ei chael. Mae'n debygol mai'r safle fydd y gosodiad sy'n perfformio waethaf yng Nghymru eto yn 2025. Rydym hefyd yn deall bod y safle ar werth ar hyn o bryd.

Cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol Parc Ynni Nant Mithil

33. Mae Parc Ynni Nant Mithil yn gynnig ar gyfer tri deg o dyrbinau gwynt, cynhyrchu solar a storio batris ym Mhowys. Fel ymgynghorai statudol, rydym wedi cyflwyno gwrthwynebiad i'r cais datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol, yn seiliedig ar sail tirwedd ac amwynder gweledol ynghyd â phryderon pellach ynghylch ecoleg, mawn, ac effeithiau ar safleoedd gwarchodedig. Mae pryderon yn ymwneud â'r effeithiau gweledol sylweddol y byddai'r cynnig yn eu cael ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a lleoliad y safle arfaethedig y tu allan i Ardal Cyn-Asesu 4 (lleoliad penodol a ddynodwyd ar gyfer datblygu ynni gwynt) Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, sef fframwaith datblygu cenedlaethol Llywodraeth Cymru i Gymru.

Lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

34. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae arbenigwyr CNC wedi cyfrannu cyngor i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio safonau rheoli cynefinoedd, manylebau technegol ar

gyfer camau rheoli, a chanllawiau ymarferol i ffermwyr, gan sicrhau y gall y rhain weithio gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i gyflawni canlyniadau amgylcheddol. Rydym hefyd wedi cefnogi ymgysylltiad â ffermwyr, rheolwyr tir a rhanddeiliaid eraill drwy gymryd rhan mewn cyfres o sioeau teithiol Llywodraeth Cymru drwy gydol yr hydref, i helpu i ateb cwestiynau am y cynllun a chasglu adborth ar sefyllfaoedd yn y byd go iawn, gan helpu i sicrhau bod y cynllun yn ymarferol ac yn effeithiol. Lansiodd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar ddechrau mis Ionawr a bydd yn raddol yn disodli Cynllun y Taliad Sylfaenol fel prif ffynhonnell cymorth ffermydd Cymru.

35. Mae gennym gynrychiolwyr ar y Grŵp Rhanddeiliaid Coed a Choetiroedd ac rydym wedi cyfrannu at waith ar nodi a dod o hyd i atebion i "rwystrau i greu coetiroedd", sef un agwedd ar weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae Gweithred Gyffredinol 10 y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau cynllun cyfle coetir sy'n benodol i'r fferm a dangos cynnydd tuag at y cynllun hwnnw. Felly, rydym yn rhagweld cynnydd yn nifer y ceisiadau am wasanaeth cyngor cyn ymgeisio ein tîm Rhaglen Coetiroedd, a'r gwiriad dilynol o'r cynlluniau a gyflwynwyd. Mae gwaith yn parhau, ar y cyd â Pholisi Coedwigaeth Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn effeithlon ac yn effeithiol wrth ystyried y cynnydd disgwyledig mewn ceisiadau.
36. Gan edrych ymlaen, rydym yn paratoi i ddarparu gwasanaeth newydd i weithio gyda ffermwyr i ddatblygu cynlluniau rheoli safleoedd dynodedig, i gefnogi'r cynllun. Mae tîm o swyddogion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael eu recriwtio ac maent yn cael eu hyfforddi i allu lansio'r gwasanaeth llawn ym mis Mehefin, unwaith y byddwn wedi cael cadarnhad ynghylch pa ffermwyr sydd wedi ymuno â'r cynllun. Bydd hyn yn cefnogi'r ymrwymiad i sicrhau bod 30% o ardaloedd gwarchodedig Cymru dan reolaeth effeithiol erbyn 2030.

Rhaglen Dalgylchoedd Afonydd Trefol Canol De Cymru

37. Mae ein Rhaglen Dalgylchoedd Afonydd yn darparu fframwaith trawsnewidiol ar gyfer partneriaethau integredig ac atebion i'r problemau cymhleth sy'n amgylchynu ein hafonydd trefol. Mae'r problemau hyn yn gynyddol heriol oherwydd y pwysau cronus o weithgarwch diwydiannol hanesyddol, trefoli dwys, seilwaith sy'n heneiddio, llygredd, a newid hinsawdd, sy'n gwaethygu'r problemau.
38. Mae ein dull dalgylch ar gyfer afonydd trefol yn cael ei gymhwyso ledled Canol De Cymru, gan gynnwys afon Ogwr (dyfroedd ymdrochi), afon Taf (perygl llifogydd) ac afon Elái (ansawdd dŵr), gan fynd i'r afael â ffactorau ysgogol statudol megis perygl llifogydd a chydymffurfedd â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr mewn ffordd integredig. Mae'n cefnogi gwelliant amgylcheddol hirdymor, adfer byd natur, gwydnwch cymunedol, llesiant, ac addasu i'r hinsawdd. Mae newid hinsawdd yn un o bum prif ffactor sy'n achosi colled bioamrywiaeth.
39. Cryfder diffiniol y dull hwn yw ei ffocws ar bartneriaeth effeithiol o ran llywodraethiant a chyflawni, gan gydnabod na all unrhyw sefydliad sengl ddatrys yr heriau hyn ar ei ben ei hun. Mae'n troi ein huchelgais genedlaethol yn ddarpariaeth sy'n seiliedig ar leoedd, gan ddangos enghraifft gref o'r fframwaith trawsnewidiol gyda'r ffocws ar ddulliau gweithio i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a gwerthfawrogi partneriaethau teg, tra bod yr amgylchedd yn cael ei roi wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, fel y disgrifir yn Natganiad Ardal Canol De Cymru.

Asesiadau Risg Newid Hinsawdd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

40. Mae tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghanol De Cymru, ac rydym yn manteisio ar bŵer y partneriaethau hyn, gan wneud cynnydd da o ran nodi risgiau newid hinsawdd lleol a gwaith pellach. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a Chwm Taf Morgannwg wedi cynnal Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd lleol ac yn symud ymlaen i'r camau nesaf, ac mae disgwyl i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg gwblhau ei asesiad ef ym mis Mawrth. Yna Canol De Cymru fydd y lle cyntaf i gael set gyfan o Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
41. Er bod yr holl risgiau a nodwyd yr un mor bwysig, hoffem dynnu sylw at ddau: yn gyntaf y risg o lifogydd i bobl, cymunedau, busnesau, seilwaith gwasanaethau ac asedau; ac yn ail y risg i ymateb sefydliadol, enw da a phwysau ariannol.
42. Rydym wedi hyrwyddo Rhaglen Dalgylchoedd Afonydd Trefol Canol De Cymru yn llwyddiannus i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a Chwm Taf Morgannwg. Mae bod yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi mynediad i arweinwyr lleol, gan ganiatáu inni ennill eu cefnogaeth a chael dechrau llyfn wrth adeiladu partneriaethau a llywodraethiant effeithiol ar gyfer y rhaglen. Rydym hefyd yn arwain Grŵp Gorchwyl Ôl-ddiwydiannol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, lle rydym yn creu gweledigaeth gyffredin ar gyfer tirwedd ôl-ddiwydiannol Cwm Taf Morgannwg. Y rhaglen dalgylchoedd afonydd fydd prif ysgogydd y grŵp gorchwyl hwn, gan gyflwyno cyfleoedd a dysgu ar y cyd a nodi atebion i risgiau newid hinsawdd i bob agwedd ar lesiant, gan fod o fudd i bawb.

Prosiect GlawLif Abertawe yn ennill Gwobr Ystradau Cymru

43. Mae man trefol dan fygythiad llifogydd y tu allan i ysgol gynradd yn Abertawe wedi'i drawsnewid yn ateb bywiog ar sail natur ar gyfer rheoli dŵr glaw, hybu bioamrywiaeth a gwella mynediad. Mewn partneriaeth â Chyngor Abertawe, Urban Foundry a chymuned Sandfields, rydym yn falch o nodi cwblhau prosiect trawsnewidiol GlawLif yn Ysgol Gynradd San Helen. Mae'r cynllun arloesol hwn, a gynlluniwyd gan Robert Bray Associates, yn ailddechrau sut y gall mannau trefol reoli dŵr glaw, cefnogi bioamrywiaeth, a chreu llwybrau mwy diogel a hygyrch ar gyfer cerdded a beicio.
44. Mae'r prosiect wedi darparu deuddeg gardd law, palmentydd athraidd a nodweddion chwareus wedi'u cynllunio gyda'r gymuned ac ar ei chyfer. Mae wedi darparu atebion ar sail natur sy'n arafu, glanhau ac amsugno dŵr glaw, gan leihau'r perygl o lifogydd, lleddfu'r pwysau ar garthffosydd cyfun, a gwella ansawdd dŵr i lawr yr afon. Mae'r cynllun hefyd yn gwella mynediad i Ysgol Gynradd San Helen am y tro cyntaf ers 150 mlynedd, gyda nodweddion dylunio cynhwysol sy'n adlewyrchu anghenion teuluoedd lleol. Mae ymylon pren wedi'u codi, pyst cynefin gwenyn a phlanhigion bioamrywiol yn creu gofod sy'n addysgiadol, yn ymarferol ac yn hardd.
45. Ariannwyd y cynllun gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth Trafnidiaeth Cymru drwy'r Grant Teithio Llesol, cyllid Lleodedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, a Rhaglen Gyfalaf Dŵr Cronfa Argyfwng Natur a Hinsawdd Llywodraeth Cymru, a ddarparwyd gan CNC. Yn ddiweddar, cafodd ei gydnabod yng ngwobrau Ystradau Cymru, sy'n dathlu rhagoriaeth mewn rheoli tir ac eiddo cydweithredol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan ennill y wobwr gyffredinol am arwain cydweithredol. Ymwelodd Jayne

Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, â'r cynllun ym mis Ionawr i gyflwyno'r wobr.

Gwaith Ffensio ar Afon Conwy

46. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda thri pherchennog tir eleni i ymgymryd â gwaith ffensio ar hyd afon Conwy. Mae ffensio ar hyd glan yr afon yn atal gwartheg rhag mynd i'r afon ac yn darparu llain glustogi i amddiffyn ansawdd y dŵr yn rhannau uchaf y dalgylch, yn enwedig pan fydd gwasgaru slyri yn digwydd. Bydd y ffensys yn caniatáu i goed ac isdyfiant dyfu ar hyd glannau'r afon, gan helpu i gysylltu ardaloedd coetir darniog, a bydd hefyd o fudd i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Porfeydd Eidda yn Nhŷ Uchaf Eidda, gan ei fod yn galluogi merlod a gwartheg i bori'r ddôl – gan atal brwyn a glaswellt caled a chaniatáu i flodau prin y ddôl i ffynnu. Mae cafnau solar wedi'u gosod i atal da byw rhag yfed yn uniongyrchol o'r afon.

Amnewid Cwlfert Afon Lwynor

47. Cwblhawyd cynllun yn ddiweddar i ddisodli cwlfert gyda phont rhychwant clir ar afon Lwynor. Dyma oedd y ffordd fwyaf costeffeithiol o adfer mynediad i bob rhywogaeth o bysgod ac adfer deinameg naturiol yr afon. Mae'r gwaith yn gwella statws cadwraeth rhywogaethau'r Ardal Cadwraeth Arbennig yn nalgylch afon Tywi. Ar hyn o bryd, mae gan y corff dŵr statws 'cymedrol' o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pysgod.
48. Roedd y cwlfert yn rhan o groesfan llwybr coedwigaeth ac yn achosi rhwystr sylweddol i fudo pysgod oherwydd llifoedd bas cyflym trwy bibell ar oledf a oedd yn 12 metr o hyd. Cyfyngodd y bibell yr afon hefyd, gan amharu ar symudiad graean a deinameg naturiol sianel yr afon. Mae'r gwaith gwella wedi datgloi tua 4.5 o gilometrau o gynefin i fyny afon Brân (Llanymddyfri) a rhan o afon Tywi, a bydd o fudd i rywogaethau megis eogiaid, brithyllod, pennau lletwad, llyswennod pendoll yr afon a llyswennod pendoll y nant, ac yn cyfrannu at y gwelliant sydd ei angen i fynd i'r afael â'r methiant o ran pysgod o dan Reoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

49. Ar Ddiwrnod Pridd y Byd ym mis Rhagfyr, lansiwyd y cynllun uwchraddio amlinellol ar gyfer 2025–2030 ar gyfer y pum mlynedd nesaf o weithio mewn partneriaeth drwy Gweithredu Mawndiroedd Cymru gan y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, CNC a Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun newydd yn cynnwys adfer mwy o fawndir, gan gynnwys drwy gynyddu cyllid i bartneriaid, cynyddu'r capasiti ar gyfer swyddi gwyrdd a chontractio, mireinio'r gwaith monitro a'r dystiolaeth, a pharhau i rannu arbenigedd mawndir gyda llunwyr polisi ac wrth gynllunio. Mae dogfen adolygu gyhoeddus y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd ar gyfer 2020–2025 hefyd ar gael ar-lein, gan nodi cryfder partneriaeth Gweithredu Mawndiroedd Cymru a phum mlynedd llwyddiannus o gyflawni.

Arolwg Adar Hirgoes sy'n Bridio Cymru 2026

50. Mae paratodau ar y gweill ar gyfer arolwg adar hirgoes ledled Cymru sy'n canolbwyntio ar y gylfinir ac a fydd hefyd yn cofnodi gornchwiglod, g'iachod cyffredin, cwtiaid aur, pibyddion y mawn a phibyddion coesgoch sy'n bridio. Mae'r arolwg wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a bydd yn gwella ein dealltwriaeth o ble mae'r

rhywogaethau hyn yn aros er mwyn sicrhau bod cymorth y llywodraeth ar gyfer creu coetiroedd yn cael ei dargedu yn yr ardaloedd cywir. Cysylltwyd â thirfeddianwyr yn uniongyrchol i ofyn am ganiatâd mynediad ac mae erthyglau wedi'u cyhoeddi yng nghylchlythyr *Gwlad*, yng nghylchlythyrau Undeb Amaethwyr Cymru a'r Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, ac ar ein gwefan.

Fforwm Afancod Cymru

51. Cynhelir cyfarfod cyntaf Fforwm Afancod Cymru ym mis Chwefror yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Dyfi. Steve Ormerod fydd cadeirydd y fforwm, gyda'r Dirprwy Brif Weinidog yn arwain y cyfarfod cychwynnol. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys ystod o randdeiliaid o sefydliadau rheoli tir, pysgodfeydd a chadwraeth natur.

Diweddariadau Masnachol

Gwerthiannau Pren

52. Mae ein gweithrediadau wedi ymateb yn ffafriol yn sgil Storm Darragh ym mis Rhagfyr 2024, gyda chynnydd yn y cynnig o bren i'r farchnad y llynedd, gan gyrraedd y terfynau targed uchaf o 850,000m³. Mae'r farchnad bresennol yn parhau i fod yn sefydlog gyda rhagolwg o incwm is cyffredinol ar gyfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r effeithiau sy'n achosi'r incwm is hwn yn cynnwys arafu yn y farchnad oherwydd llai o hyder yn yr economi ymhlith adeiladu tai, symud adnoddau i'r sector preifat i ddelio â chnydau sydd wedi'u difrodi gan stormydd, a llai o adnoddau contractwyr i'r sector coedwigaeth ymgymryd â'r gweithrediadau cynaeafu.
53. Mae sefyllfa bresennol y farchnad, ac effaith Storm Darragh, wedi arwain cwsmeriaid i gaffael pren o'r farchnad ehangach. Bydd yr ymrwymïadau mewnforio pren crwn presennol, sy'n deillio o lwerddon ac Ynys Manaw i ddociau Birkenhead, yn ei gwneud yn ofynnol i felinau llifio Cymru anrhydeddu contractau cyflenwi o'r fath cyn adfer capasiti llawn ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.
54. Mae rhagolwg incwm pren is o £31.4 miliwn, o gyllideb agoriadol ar gyfer y flwyddyn o £32.5 miliwn, yn parhau i gael ei warantu gan Lywodraeth Cymru er mwyn caniatáu i'n gweithgareddau rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru gael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol. Mae ein rhagolygon parhaus am incwm pren yn gwella'n barhaus yn dilyn sawl blwyddyn o ragweld ac adnabod tueddiadau yn y farchnad. Mae'r gwaith hwn wedi'i ategu gan gwblhau fframwaith sicrwydd gwerthiannau pren gan ein tîm llywodraethiant, i gynnig ail a thrydedd linell amddiffyn wrth gynnal statws sicrwydd ein gweithgareddau.

Ynni Adnewyddadwy

55. Mae ein rôl o ran galluogi a hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru wedi cyflawni llwyddiannau ac wedi wynebu heriau. Rhagwelir y bydd ein hincwm ynni adnewyddadwy y flwyddyn ariannol hon yn cyrraedd £26 miliwn yn dilyn adennill costau gwirioneddol CNC, gydag £11 miliwn o gronfeydd net yn cael eu sicrhau gan Lywodraeth Cymru. Mae caniatâd cynllunio llwyddiannus ar gyfer cynllun datblygu ynni gwynt pellach yng Nghoedwig Clocaenog yn y Gogledd-ddwyrain

wedi sicrhau gwaith datblygu a pharatoi pellach. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Thrydan Gwyrdd Cymru i ddatblygu cynllun fferm wynt Glyn Cothi yn Sir Gaerfyrddin. Rydym yn ceisio datblygu cyfres o astudiaethau achos gyda Thrydan Gwyrdd Cymru i gefnogi datblygiadau yn y dyfodol i gyflwyno a chyflawni cynigion rhagorol, er budd natur a chymunedau.

56. Mae risg wedi'i nodi o ran sicrhau cyllid ar gyfer creu coetiroedd cydbwysu yn y dyfodol, ar gyfer ymrwymadau cynllunio pellach ar gyfer cynlluniau piblinell, o fewn rhaglen Trydan Gwyrdd Cymru. Rydym yn gweithio gyda thimau Stiwardiaeth Tir a Nawdd Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn cael piblinell gydbwysu dryloyw ac yn adennill costau'n llawn ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol er mwyn cynnal maint Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a photensial cynhyrchiol yr ystad. Rydym wedi ein rhwymo o dan contract gan y trefniadau ariannu ar gynlluniau cyfredol hyd at 2030.
57. Bydd yr ymrwymadau i sicrhau coetir cymysg a gwydn a chadw achrediad Safon Coedwigaeth y DU ein coedwigoedd yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal potensial cynhyrchiol pren meddal yr ystad a chreu mwy o goetiroedd yn ôl arwynebedd. Mae arwyddion cynnar yn cynnig cefnogaeth i'r dull hwn gan dîm Noddi Llywodraeth Cymru.
58. Rydym yn datblygu ein rhagolygon incwm o ynni adnewyddadwy ac yn ceisio datblygu offer rhagweld mewn cydweithrediad â datblygwyr a gweithredwyr. Bydd model darogan gwell yn rhoi mwy o sicrwydd ac yn cefnogi ein rôl gyllid wrth reoli'r cymorth grant a'r broses o dynnu arian i lawr gan Lywodraeth Cymru, a hynny ar draws y sefydliad.

Mynydd Cilfái

59. Mae ildio prydles a throsglwyddo asedau coetiroedd Mynydd Cilfái, yn Abertawe, wedi'u cwblhau rhwng CNC a Chyngor Abertawe. Mae'r elw wedi'i gomisiynu i'n tîm Stiwardiaeth Tir i geisio caffael tir cydbwysu ar gyfer creu coetiroedd newydd ac ehangu Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Strategaeth Twf a Gwerth

60. Yn dilyn adborth parhaus ar ein Strategaeth Twf a Gwerth arfaethedig, rydym yn dechrau cyfnod o ymgysylltu ehangach â staff CNC, cwsmeriaid allanol a rhanddeiliaid ar draws ystod o feysydd pwnc, gan gynnwys pren, ynni adnewyddadwy, hamdden masnachol a datblygu busnes. Hyd yma, mae cyflwyniadau wedi cynnwys y Pwyllgor Ystadau Tir, y Tîm Gweithredol, y Grŵp Stiwardiaeth Tir a Busnes Masnachol, ac adrannau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ein tîm noddi a'r Gyfarwyddiaeth Tir, Natur a Choedwigaeth.
61. Mae cynllun drafft wedi'i baratoi a bydd cyflwyniad ar-lein a holiadur ymgysylltu cysylltiedig, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gyda chefnogaeth y tîm cyfathrebu. Cafodd cyhoeddiad o'r cynllun ymgysylltu a'r cynigion yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr a bydd cyfres o weminarau a gweithgareddau ymgysylltu yn cael ei chynnal i geisio barn a syniadau gan ystod eang o randdeiliaid. Gofynnir i'r Tîm Gweithredol gymeradwyo'r strategaeth newydd ym mis Ebrill 2026 a'r bwriad yw lansio'r strategaeth yn yr haf, yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai.

62. Maes datblygu busnes cyllid gwyrdd sy'n creu'r lefel fwyaf o ddiddordeb ar hyn o bryd. Bydd y gwaith hwn yn galw am groestoriad o randdeiliaid mewnol ac allanol sydd â diddordeb. Bydd angen i ni sicrhau ein bod yn archwilio'r cyfleoedd yn llawn ac yn canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n cefnogi cyflawni ein cynllun corfforaethol ac yn bodloni'r safonau uchel o gydymffurfedd a llywodraethiant a ddisgwylir gan gorff cyhoeddus. Bydd y maes gwaith hwn yn galw am aliniad â'n Strategaeth Caffael a Chontractau a'r Strategaeth Cyllid sydd ar ddod.

Diweddariadau Mewnol

Ardystiad ISO14001

63. Mae system reoli amgylcheddol CNC wedi'i hardystio i safon amgylcheddol ISO14001. Rydym yn cael ein harchwilio'n allanol yn flynyddol gan y Sefydliad Safonau Prydeinig i gynnal ein hardystiad, ac mae hyn yn rhoi sicrwydd trydydd parti i Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd ein bod yn rheoli ein heffeithiau amgylcheddol yn gyfrifol ac yn effeithiol. Ym mis Tachwedd 2025, cafodd CNC ei ailardystio'n ffurfiol i safon amgylcheddol ISO14001 am dair blynedd arall.
64. Mae manteision ardystiad ISO14001 yn cynnwys fel a ganlyn:
- Cydymffurfedd rheoleiddiol: Yn sicrhau cydymffurfedd â deddfau a rheoliadau amgylcheddol.
 - Arbedion cost: Yn symleiddio gweithrediadau i leihau costau sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff a defnyddio adnoddau.
 - Lleihau effaith amgylcheddol: Yn lleihau ein hól troed amgylcheddol drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a rheoli gwastraff yn effeithlon.
 - Ymddiriedaeth rhanddeiliaid: Yn gwella enw da a hyder rhanddeiliaid drwy ddangos ymrwymiad i gynaliadwyedd.
 - Ymgysylltiad gweithwyr: Yn hybu morâl ac yn denu talent drwy feithrin diwylliant o gyfrifoldeb amgylcheddol.
65. Cawsom ein hardystio gyntaf i safon ISO14001 yn 2014, ac mae archwilwyr allanol wedi cydnabod bod CNC yn dilyn arferion gorau ym meysydd rheoli archwilio, cydymffurfedd cyfreithiol a chydymffurfedd arall, a'i ddull o osod amcanion. Disgwylir cyhoeddi fersiwn newydd o ISO14001 ym mis Ebrill 2026; bydd hyn yn darparu eglurder ac yn ychwanegu gwerth i gadw'r safon yn berthnasol wrth i arferion rheoli amgylcheddol esblygu.

Recriwtio Prif Swyddog Gweithredol

66. Cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer rôl y Prif Swyddog Gweithredol ar 4 Chwefror. Yn dilyn y broses hidlo, aeth pedwar ymgeisydd trwy gyfweiliadau cychwynnol ac asesiadau seicometrig gyda'n hymgynghorwyr recriwtio, Odgers. Roedd camau pellach o'r asesiad yn cynnwys panel ymgysylltu â staff, asesiad cyfryngau, a'r cyfweiliad panel ffurfiol. Roedd y panel cyfweld yn cynnwys ein cadeirydd gyda chefnogaeth dau gyfarwyddwr anweithredol, Mark McKenna a Helen Pittaway, a chynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru.

Cyfathrebu

Cyfathrebu Corfforaethol

67. Anfonwyd cyfathrebiadau i groesawu ein cadeirydd newydd at gydweithwyr, partneriaid a'n cymunedau ehangach, gan arwain at sylw ar draws wyth allfa newyddion. Ddechrau mis Chwefror, byddwn yn nodi carreg filltir "100 diwrnod yn y swydd" y cadeirydd gyda nifer o gyfweiliadau yn y cyfryngau.
68. Roedd ein presenoldeb yn Ffair Aeaf Sioe Frenhinol Cymru ym mis Tachwedd yn rhoi llwyfan gwerthfawr i CNC ymgysylltu â sefydliadau perchnogion tir a ffermwyr. Ym mis Tachwedd hefyd, lansiwyd ein hymarfer marchnata i ddod o hyd i bartneriaid cynaliadwy hirdymor i redeg y canolfannau ymwelwyr a'r ardaloedd cyfagos ym Mwlich Nant yr Arian a Choed y Brenin. Mae'r broses, sy'n rhedeg tan haf 2026, wedi'i chynllunio i roi'r cyfle, yr amser a'r cymorth i amrywiaeth o bartïon â diddordeb posibl – o grwpiau cymunedol, mentrau bach a busnesau newydd i fusnesau masnachol – wneud cais.
69. Gwnaethon ddathlu gwaith caled ac arloesedd cydweithwyr y chwarter hwn, gan gynnwys ennill Rhagoriaeth mewn Cynllunio ac Asesu Tirwedd a Gwobr y Llywydd yng ngwobrau tirwedd gorau'r DU. Cafodd ein gweithgor awyr dywyll gydnabyddiaeth hefyd am ei arferion da arloesol ar warchod a gwella awyr dywyll Cymru.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu Mewnol

70. Rydym wedi bod yn adeiladu sylfaen dystiolaeth i newid sut rydym yn cyfathrebu'n fewnol. Mae ymchwil yn dangos bod ein dull gweithredu presennol yn brysur ac yn ddarniog, gan arwain at golli gwybodaeth a gorlethu. Rydym yn datblygu offer a strategaeth gliriach i wella'r hyn rydym yn ei rannu, pryd rydym yn ei rannu, a'r sianeli sydd ar gael ar gyfer cyfathrebu.
71. Fel rhan o'r prosiect hwn, rydym yn gweithio gyda'n tîm digidol ar welliannau i'n mewnwrwyd. Ein ffocws yw creu naratif sengl, cydlynol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n gwaith trawsnewidiol. Mae hyn yn cynnwys lle canolog ar gyfer diweddariadau sefydliadol, blogiau gan arweinwyr, a chynnwys sy'n ysbrydoli newid ymddygiad. Byddwn hefyd yn cefnogi timau i arddangos sut mae gwaith bob dydd yn dangos ein gwerthoedd. Un uchafbwynt yn ddiweddar oedd cefnogi'r cadeirydd newydd i gysylltu â chydweithwyr trwy ei neges fideo gyntaf. Cafodd y neges, a rannwyd ochr yn ochr â'i gyfarchiad Nadolig, adborth cadarnhaol am ei chyffyrddiad personol a'i photensial i gryfhau ymgysylltiad ar draws y sefydliad.

Materion Allanol

72. Mae ein harchwiliad o ganfyddiadau rhanddeiliaid – ein hasesiad ffurfiol cyntaf o sut mae rhanddeiliaid yn ein gweld – bellach ar waith. Mae'r holiadur wedi'i ddosbarthu'n genedlaethol ac yn lleol mewn cydweithrediad â thimau Pobl a Lleoedd i nodi tueddiadau ar y ddwy lefel. Mae ail elfen y prosiect, cyfweiliadau archwilio dwfn mwy ffurfiol gyda sampl gynrychioliadol, wedi'i chynnal ym mis Ionawr. Bydd canfyddiadau'r ddwy elfen yn llywio ein heffaith, ein henw da, ansawdd ein perthynas, ein potensial i gydweithio, a'n meysydd i'w gwella.
73. Mae gwaith hefyd yn parhau i baratoi pecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer staff, ac rydym yn disgwyl lansio hwn cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Bydd y ddau brosiect hyn yn ein helpu i fodloni'r gofynion archwilio mewnol sydd heb eu bodloni eto.

74. Rydym wedi chwarae rhan ganolog wrth gefnogi lansio *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025: Pontydd i'r Dyfodol*, a ddigwyddodd yng Nghaerdydd ym mis Ionawr. Gwnaethon gydlyn cyfathrebu, yn sicrhau sylw yn y cyfryngau cenedlaethol a sectoraidd, a chynhyrchu cynnwys sy'n atgyfnerthu arweinyddiaeth CNC mewn mewnwelediadau yn seiliedig ar dystiolaeth a chydweithio ar heriau adnoddau naturiol Cymru.
75. Rydym yn paratoi'n weithredol ar gyfer etholiad nodedig y Senedd ar 7 Mai. I baratoi ar gyfer nifer cynyddol o Aelodau'r Senedd, a newidiadau i ffiniau, rydym wedi mapio'r etholaethau newydd yn erbyn ein map lleoedd ac wedi rhannu'r wybodaeth hon gyda chydweithwyr. Yn allanol, rydym wedi mynychu cyfres o ddigwyddiadau gydag Aelodau'r Senedd ac ymgeiswyr ar draws y sbectwm gwleidyddol yn amlinellu blaenoriaethau eu maniffesto. Rydym wedi cynnal cyfarfodydd dwyochrog gydag Aelodau'r Senedd, ymchwilyr a chynghorwyr i drafod ein *Camau Beiddgar ar gyfer 2026 a Thu Hwnt* a'n Deg Gofyn ar gyfer tymor nesaf y Senedd. Rydym yn disgwyl i fanifestos a rhestrau llawn o ymgeiswyr gael eu cyhoeddi cyn mis Mawrth.
76. Ar ôl yr etholiad, bydd angen penodi Prif Weinidog erbyn 4 Mehefin, gyda phenodiadau Gweinidogion y Cabinet, y strwythur pwyllograu a'r Rhaglen Lywodraethu i ddilyn hynny.

Olrhain Gwastraff

77. Mae'r Ganolfan Cwsmeriaid yn paratoi ar gyfer lansio cyfnod beta cyhoeddus Olrhain Gwastraff drwy ddarparu cymorth cwsmeriaid yn y Gymraeg. Rydym yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Defra a'n tîm Diwygio Rheoleiddio Gwastraff i gydlynio hyfforddiant a chanllawiau a mapio teithiau cwsmeriaid, gan sicrhau bod cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg yn cael gwasanaeth o safon gyfartal. Mae'r cydweithrediad hwn yn cefnogi rhaglen a reolir gan Defra ac yn cynnwys sicrhau cyllid blynyddol ar gyfer y ddarpariaeth yn Gymraeg.
78. Mae arbenigedd presennol ein tîm mewn ymholiadau rheoleiddio sy'n ymwneud â gwastraff yn ein galluogi i ddatrys tua 80% o gysylltiadau wrth gwsmeriaid, gan helpu cwsmeriaid i lywio'r system newydd a'r gofynion polisi a thrwyddedu presennol. Bydd y gwasanaeth yn cryfhau mewnwelediad sefydliadol i symudiadau gwastraff ledled Cymru, gan gefnogi canlyniadau rheoleiddiol ac amgylcheddol da.

Mae Cymunedau'n Gallu Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd

79. Roedd cyfleu ein rôl wrth baratoi ar gyfer perygl llifogydd ac ymateb iddo yn ffocws mawr yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig wrth ystyried effeithiau sylweddol a brofwyd yn Nhrefynwy ac yn Sir Gaerfyrddin yn ystod glaw'r gaeaf hwn. Neilltuwyd adnoddau sylweddol i rybuddio a hysbysu'r cyhoedd, ymgysylltu â phartneriaid cyfathrebu a rheoli diddordeb y cyfryngau yn y digwyddiadau hyn, ac egluro'r cyflwr parhaus o'r perygl llifogydd uwch yr oeddem ynddo dros y cyfnod hwn. Gwnaeth ein galluogi i gyfleu negeseuon allweddol ynghylch ein gwasanaethau llifogydd ar-lein a'r heriau sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol, wrth dynnu sylw at y gwaith sy'n mynd ymlaen i archwilio ac atgyweirio asedau yn dilyn digwyddiadau o'r fath.

Llygredd yn Cael ei Atal Hyd yr Eithaf

80. Rhoddodd cyhoeddi'r adroddiad rheoleiddiol blynyddol y cyfle nid yn unig i dynnu sylw at ystadegau ac effaith gref ein gwaith rheoleiddiol a gorfodi, ond hefyd i atgyfnerthu effaith addasu ein dull strategol a rhoi'r adnoddau lle gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf.
81. Mae'r tîm cyfathrebu wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r risgiau i enw da sy'n deillio o heriau ac effeithiau cynigion niwtraliaeth maethynnau ar y sector datblygu tai. Roedd ein hymgysylltiad rhagweithiol â'r BBC, wedi'i ategu gan ddatganiadau a chyfweliadau wedi'u paratoi'n dda a oedd yn pwysleisio cydweithio ac ymrwymiad ar y cyd i ddod o hyd i atebion ar y mater sensitif hwn, yn allweddol wrth sicrhau sylw cytbwys.
82. Rydym yn parhau i dynnu sylw at bwysigrwydd ein gwaith cydymffurfedd i leihau risgiau llygredd. Gwnaethon weithio gyda chydweithwyr Gweithrediadau yn y Gogledd-ddwyrain i hyrwyddo ymweliadau ein swyddogion ag Ystad Ddiwydiannol Llai, lle gwnaethon nhw gynnig cyngor ymarferol ar sut i leihau risgiau llygredd a gwella arferion amgylcheddol. Mae'r ymweliadau hyn bob amser yn cael sylw cryf yn y cyfryngau lleol, ac yn rhoi persbectif ehangach i'r cyhoedd ar y lled sydd i'n gwaith rheoleiddiol a gorfodi. Rydym hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ein gwaith rheoleiddiol, gan rannu canlyniadau camau gorfodi a gymerwyd yn erbyn achosion o wastraff tecstilau halogedig a adawir yn anghyfreithlon, a gweithredu safle pren gwastraff heb y drwydded amgylcheddol ofynnol.
83. Gwnaethon hefyd arddangos y mesurau llai adnabyddus rydyn ni'n eu cymryd i fynd i'r afael â risgiau llygredd yn eu ffynonellau. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo ein gwaith partneriaeth gyda chwmnïau dŵr ac awdurdodau lleol i ddatrys camgysylltiadau yn y Gogledd-ddwyrain a Chaerdydd, yn ogystal â thynnu sylw at y grantiau a ddyfarnwyd i gefnogi atebion draenio trefol cynaliadwy.

Mae Natur yn Gwella

84. Gwnaeth cyhoeddi adroddiad *Rhywogaethau mewn Perygl* ym mis Tachwedd helpu i osod CNC fel sefydliad arbenigol, gan arwain y ffordd wrth ddatblygu tystiolaeth newydd sy'n llywio sut rydym yn gweithio, gan gynnwys gyda phartneriaid, i sicrhau adfer byd natur. Mae'r adroddiad yn gwneud Cymru y wlad gyntaf yn y DU i nodi ei rhywogaethau prinnaf yn seiliedig ar ba mor gyfyngedig yn ddaearyddol ydyn nhw, yn hytrach na defnyddio dulliau asesu traddodiadol. Sicraodd ein paratoadau, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr Polisi a Gweithrediadau, ein bod yn gallu cynnig pecyn stori cryf i'r cyfryngau. Cafodd cyfweliadau wedi'u recordio ymlaen llaw gyda'n harbenigwyr, a gasglwyd ar leoliad yn Niwbwrch, ynghyd â chyfweliadau byw ar y diwrnod, sylw cadarnhaol ar raglen *Today* Radio 4, ar y BBC ac yn *The Guardian*.
85. Cyflwynodd adroddiad Archwilio Cymru ar ddull CNC o ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, her i'r sefydliad. Gwnaethon gydweithio'n agos â chydweithwyr a gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymateb a oedd yn cydnabod yr heriau ac yn tynnu sylw at ein hymrwymiad i weithredu argymhellion yr adroddiad wrth ddatblygu ein gwaith i gefnogi adfer byd natur fel rhan o strategaeth ehangach o ymyriadau.
86. Ar Ddiwrnod Pridd y Byd ym mis Rhagfyr, gwnaethon ddathlu llwyddiant pum mlynedd cyntaf y Cynllun Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol gyda lansio'r cam nesaf – cynllun pum mlynedd sy'n nodi targedau hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol ar gyfer adfer

mawndiroedd. Gwnaethom hefyd hyrwyddo ein cydweithrediad â Phrifysgol Caerwysg ar ymchwil o amgylch gwelyau maerl y Ddau Gleddau, gan helpu i amlygu'r ymddiriedaeth a roddir yn ein harbenigwyr ac atgyfnerthu ein safle fel awdurdod uchel ei barch mewn cadwraeth forol.

Crynodeb o Gwynion, Canmoliaeth a Gohebiaeth

87. Mae'r tîm Gohebiaeth Ganolog wedi rheoli gwaith achos ar Lynnoedd Cosmeston ynghylch bioddiogelwch a gwarchodaeth y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gan gynnwys camau dilynol gyda Chyngor Bro Morgannwg. Maent wedi cydlyn cyfathrebiadau rheoleiddiol ar Kronospan, gan gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ailgyflwyno cynllun sŵn, cydymffurfedd â llwch, ac ymchwiliadau parhaus i arogleuon. O ran dalgylch afon Ogwr, cadarnhaodd y tîm ymrwymiad CNC i leihau llygredd a gwella ansawdd dŵr drwy reoleiddio, cydweithrediad, a thîm prosiect dyfroedd ymdrochi newydd, gan egluro bod ffynonellau llygredd ar draws dalgylchoedd yn cael eu hymchwilio gyda phartneriaid, gydag archwiliadau a chynlluniau buddsoddi yn cael eu datblygu i wella eu cyflwr.
88. Mae sesiwn friffio wedi'i darparu i Samantha Dixon AS ynghylch sylweddau poly- a pherffiworoalcyll yn nalgylch afon Dyfrdwy. Mae hi'n rhedeg grŵp Uwchgynhadledd Dyfrdwy ac roedd y sesiwn friffio o ddiddordeb arbennig iddi hi a'i hetholwyr. Cadarnhaodd ein hymateb fod rheolaethau rheoleiddiol llym, nad oes unrhyw lefelau pryderus yn aber afon Dyfrdwy ar hyn o bryd, a'n gwaith trawslywodraethol parhaus ar halogion etifeddol.
89. Cawsom ganmoliaeth gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â'r llifogydd ym mis Tachwedd yn Sir Fynwy. Rhoddodd ein Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer y Gogledd-orllewin, Sian Williams, gyfweiliad rhagorol ar BBC Radio Cymru, gan drafod y llifogydd. Cafodd ei chanmol am ei gwybodaeth, ei harbenigedd a'i phroffesiynoldeb wrth fynd i'r afael â phwnc sy'n bersonol iawn i lawer yn ein cymunedau. Yn y cydestun anodd hwn, cynrychiolodd Sian CNC mewn modd cadarnhaol iawn.
90. Mae canmoliaeth fel hyn yn y cyfryngau yn brin, yn enwedig yn ystod llifogydd, lle mae cymaint o bobl yn cael eu heffeithio. Mae'r gydnabyddiaeth benodol hon yn ymestyn i bob aelod o'n timau llifogydd: y rhai allan yn y maes, y rhai sy'n gweithio y tu ôl i'r llenni, a'r rhai ar ddyletswydd hir ac oriau wrth gefn ar y penwythnos.

Rhagolwg

- Dydd Iau, 26 Chwefror – Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig
- Dydd Mercher, 4 Mawrth – Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
- Dydd Iau, 5 Mawrth – Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Dydd Iau, 12 Mawrth – Pwyllgor Cyllid
- Dydd Mercher a Dydd Iau, 18 a 19 Mawrth – Cyfarfod y Bwrdd mis Mawrth
- Dydd Iau, 16 Ebrill – Diwrnod Datblygu'r Bwrdd

- Dydd Mercher, 22 Ebrill – Galwad am y Newyddion Diweddaraf gan y Bwrdd
- Dydd Mercher, 29 Ebrill – Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Dyddiad y cyfarfod:	12 Chwefror 2026
Teitl y papur:	Diweddariad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r Bwrdd
Cyfeirnod y papur:	26-02-B02
Noddwyd y papur gan:	Karen Balmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Karen Balmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Diben y papur	Er gwybodaeth
Crynodeb	I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd mewn perthynas â chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2025.

Cefndir

1. Mae'r diweddariad hwn i'r Bwrdd yn ymwneud â chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2025. Roedd Llywodraeth Cymru wedi mynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel arsylwr am y tro cyntaf.

Diweddariad

Archwilio Cymru

2. Rhoddwyd diweddariad ar drosolwg o'r adroddiad ar y Fenter Twyll Genedlaethol gan Archwilio Cymru, gan dynnu sylw at y nifer o barau data yn y Fenter Twyll Genedlaethol a gafwyd gan CNC yn 2024-25. Croesawyd dull rhagweithiol CNC o ran eu gwaith gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol. Trafodwyd gwerth cyfranogiad parhaus yn y Fenter Twyll Genedlaethol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chytunwyd i adolygu data cymharol dros amser i asesu'r gwerth parhaus.

Archwilio Cymru – Adroddiad Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

3. Darparwyd trosolwg o'r adroddiad ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gan gynnwys yr argymhellion ar gyfer gwella a'r papur ar ymateb rheolwyr. Trafodwyd

yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chafwyd sicrwydd bod Archwilio Cymru yn fodlon ag ymateb CNC. Cydnabuwyd yr heriau a wynebwyd oherwydd cyfyngiadau adnoddau a phroblemau o ran capasiti. Ymhlith y materion eraill a drafodwyd roedd trawsnewid digidol, y cynnydd tuag at y targed bioamrywiaeth 30 erbyn 30, a diffyg gweledigaeth glir ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

4. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn offeryn pwysig ond nid yr unig ffocws, ac y dylai'r cynllun cyflawni nodi'n glir flaenoriaethau, cyfleoedd ariannu, a rolau ar gyfer partneriaid eraill. Cadarnhawyd bod ymateb y rheolwyr wedi'i gymeradwyo, y byddai'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn gyfrifol am oruchwylio, ac y byddai cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rheoli risg

5. Rhoddwyd diweddariad ar reoli risg, gan gynnwys sganio'r gorwel allanol, cynnydd ar weithredu datganiadau parodrwydd i dderbyn risg, digwyddiadau seiber, a chynnig ar gyfer sesiynau rhoi sylw i risg. Eglurwyd y broses ar gyfer diffinio sgoriau risg targed ar gyfer y Gofrestr Risgiau Strategol a'u halinio â'r datganiadau parodrwydd i dderbyn risg. Cyflwynir y gwaith i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd yn 2026.
6. Trafodwyd sgoriau'r risgiau strategol. Nid oedd adrodd drwy PowerBI yn fyw eto, ond unwaith y byddai'n cael ei actifadu, byddai hyn yn darparu sicrwydd a goruchwyliaeth o gamau lliniaru. Byddai'r adroddiad PowerBI hefyd yn helpu i ddelweddu'r cysylltiadau rhwng y Gofrestr Risgiau Strategol a cofrestrau risgiau oddi tani.
7. Croesawyd y sesiynau rhoi sylw a chymeradwywyd y dull arfaethedig gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, gan awgrymu sesiwn ar reoli digwyddiadau.

Diweddariad cyllid

8. Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ddiweddariad cyllid, gan gynnwys gwrth-dwyll. Cynhaliwyd trafodaeth ar y meysydd twyll risg uchel a'r Strategaeth Gwrth-dwyll. Trafodwyd hefyd oblygiadau model hunan-yswiriant CNC gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rhwymedigaethau amodol ac achosion cyfreithiol risg uchel

